



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn 2014–15

# Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

## 1. Crynodeb

- 1.1. Yr effaith gadarnhaol o weithio mewn cyfarwyddiaeth ehangach yw galluogi gofal cymdeithasol i gysylltu'n fwy effeithiol â thai, ac adrannau eraill. Cefnogir hyn drwy gyfarfodydd penaethiaid gwasanaethau, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth fwy eang o fewn y cyngor o'i gyfrifoldeb corfforaethol i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Her allweddol i'r cyngor yn y dyfodol fydd ei berthynas weithio â'r sector iechyd, a'i brosesau ailstrwythuro a newid pwyslais mewnol. Mae'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu'r cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol ac yn fforddiadwy yn sylweddol.
- 1.2. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi'i hyfforddi a'i goruchwyllo'n dda, ac fe'i gwerthfawrogir. Er gwaethaf yr heriau, mae ymrwymiad y staff yn glir iawn, a chydabyddir bod y ddarpariaeth graidd o wasanaethau'n gadarn, er bod angen iddi ddatblygu ymhellach.
- 1.3. Mewn cyfnod o gynt ariannol, mae'r llwyddiannau o fewn gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn yn nodedig. Mae gwasanaethau oedolion wedi derbyn cymorth ariannol gan y cyngor am achosion busnes anabledau dysgu, pontio, a diogelu oedolion. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cyllid ychwanegol i drawsffurfio ei wasanaethau i bobl hŷn er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, o ystyried demograffeg heriol Ceredigion. Wedi'i gynnwys yn y cyllid ychwanegol hwn mae gwaith rheoli ceisiadau a wneir o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a datblygu sicrwydd ansawdd. Bydd y meysydd gwaith hyn yn cael eu datblygu yn 2015/16.
- 1.4. O fewn gwasanaethau comisiynu, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu'r farchnad ofal cartref, ac o ran trosglwyddo darpariaeth uniongyrchol y cyngor i'r sector annibynnol.
- 1.5. Yng ngwasanaethau plant, mae datblygu gwasanaethau a modelau ymyrraeth ac atal cynnar wedi dwyn canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.
- 1.6. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod ei fod yn cyrraedd yr hyn

mae'n ei alw'n 'bwynt tyngedfennol'. Mae angen toriadau cyllidebol yn ogystal â'r £25 miliwn a gyflawnwyd eisoes ym mlynedd diweddar, a £25 miliwn arall o arbedion rhagamcanol y bydd angen eu gwneud dros y tair blynedd nesaf, ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor gynaliadwy yw gwasanaethau at y dyfodol.

- 1.7. Ni ddylid diystyru'r effaith y bydd gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei chael ar lefel y cyngor ac ar lefel ranbarthol, ynghyd â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r ad-drefniad arfaethedig o lywodraethau lleol. Er gwaethaf hyn, mae'r gwaith sydd eisoes wedi dechrau yn y cyngor i drawsnewid gwasanaethau pobl hŷn, ei integreiddiad â'r sector iechyd, ei wasanaeth diogelu sydd wedi'i ailstrwythuro, ynghyd â llwyddiannau ei wasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar, yn ei roi mewn sefyllfa dda.

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Gwelliant a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Cynyddu'r lleoliadau a ddarperir i bobl â dementia sydd angen gofal nyrsio.	Ym mis Chwefror 2015, dechreuodd y cyngor broses ymgynghori helaeth yn ymwneud ag adolygu'r ddarpariaeth o ofal preswyl yng nghartrefi gofal Ceredigion. Bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried, a bydd opsiynau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r cabinet ym mis Gorffennaf, ac mae hyn yn cynnwys darparu gwelyau gofal nyrsio ychwanegol ar gyfer dementia.
Datblygu casgliad o ddatganiadau ar sefyllfa'r farchnad.	Mae datganiadau sefyllfa'r farchnad ar gyfer ystod o feysydd gwasanaeth wedi eu datblygu, neu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd datganiad sefyllfa'r farchnad cyffredinol yn cael ei ddatblygu ar gyfer gwasanaethau plant dros y chwe mis nesaf.
Gweithredu a chyflwyno'r broses gynefino ar gyfer staff yn yr adran gwasanaethau plant.	Mae protocol y cyfnod cynefino a phrawf ar gyfer cyflogaion newydd wedi'i orffen, ac mae'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ar gyfer staff newydd yn yr adran gwasanaethau plant.
Gwella o ran nifer yr asesiadau gofalwyr a wneir ym maes anabledd dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl.	Roedd y gwaith yn yr adran gwasanaethau i oedolion yn y flwyddyn 2014-2015 yn canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth ar gyfer gofalwyr a chynyddu nifer yr asesiadau gofalwyr a wneir, yn enwedig yng ngwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 32

	<p>o asesiadau ar gyfer gofalywr pobl ag anableddau dysgu, ac mae hyn gynnydd o gymharu â 2013-2014, pan gynhaliwyd 15 o asesiadau. Cynhaliodd y tîm iechyd meddwl cymunedol 11 o asesiadau gofalywr yn 2014-2015, sy'n welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan gynhaliwyd tri asesiad gofalywr.</p>
<p>Adolygu strwythur a pherfformiad y tîm cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.</p>	<p>Mae gwaith ar y cyd â chydweithwyr ym maes iechyd yn parhau. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r awdurdod lleol wedi llofnodi'r datganiad o fwriad, ac mae grŵp cydweithredol canolbarth a gorllewin Cymru wedi cynhyrchu 'Model Gofal a Chymorth' drafft er mwyn ymgynghori arno. Dechreuodd y penodiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r achos busnes i wella capasiti staffio ym mis Ionawr 2015.</p>
<p>Rheoli perfformiad gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol yn barhaus.</p>	<p>Mae'r system NQA wedi'i gweithredu fel fframwaith ar draws gwasanaethau oedolion. Yn awr, mae angen rhagor o waith i ymgorffori'r broses archwilio ac i ennill ardystiad achredu.</p>
<p>Yr angen i ddatblygu gwasanaeth pontio mwy cadarn, a model a phrotocol cadarn rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, ynghyd â mwy o adnoddau staffio.</p>	<p>Mae grŵp llywio'r broses bontio yn cwrdd yn rheolaidd erbyn hyn er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Ystyrir bod y broses bontio ar gyfer y tîm plant anabl, sy'n cynnwys yr holl bobl ifanc sydd ag anableddau, yn gadarn a bod yr arferion gweithio rhwng y timau yn glir. Maent yn gweithio at brotocol, ac mae cyfarfodydd olrhain/mapio parhaus ynghylch achosion unigol.</p>
<p>Adolygiad o'r model diogelu oedolion.</p>	<p>Dechreuodd y cyngor ei wasanaeth diogelu ar gyfer oedolion, sydd wedi'i ail-fodelu, ar 1 Ebrill 2015, ac mae'r uwch-ymarferwyr diogelu oedolion a rheolwr tîm bellach wedi dechrau eu swyddi. Gweithiodd y tîm ar osod systemau, prosesau a gweithdrefnau er mwyn paratoi ar gyfer pan fyddai'r tîm yn weithredol.</p>
<p>Llunio cynllun gweithlu, er mwyn helpu i greu gweithlu medrus</p>	<p>Datblygwyd cynllun gweithlu cynhwysfawr ar gyfer hyd at 2017 gan grŵp gorchwyl a</p>

<p>sy'n gallu cyflawni'r datblygiadau a nodwyd o ran darparu'r gwasanaeth.</p>	<p>dynnwyd o wasanaethau'r cyngor, sy'n cynnwys atodiad penodol am wasanaethau gofal ac amddiffyn sy'n canolbwyntio ar oblygiadau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol, materion yn ymwneud â chyflenwad o weithwyr, gweithrediadau allweddol y gweithlu, a gofynion hyfforddiant.</p>
<p>Monitro effaith newid lleoliad cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, a'r meysydd cyfrifoldeb ychwanegol sydd bellach wedi eu dirprwyo.</p>	<p>Mae'r ffaith bod lleoliad y cyfarwyddwr wedi newid, a bod cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau tai a gwasanaethau ffordd o fyw, ynghyd â'r angen am fesurau llymder sylweddol i'w cymryd o fewn y cyngor, wedi golygu bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn her. Mae strwythur o gyfarfodydd 1:1 wedi'i sefydlu'n gadarn rhwng y cyfarwyddwr a phenaethiaid gwasanaethau, ac mae cyd-gyfarfodydd rheolaidd rhwng y grŵp arweinyddiaeth/penaethiaid gwasanaethau, a threfn reoli gadarn a roddwyd ar waith yn gorfforaethol.</p>
<p>Parhau i ddatblygu'r cymorth corfforaethol a gwleidyddol cryf er mwyn ysgogi moderneiddiad, ac i ymateb yn effeithiol i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd.</p>	<p>Rhodddwyd gwybodaeth i aelodau am ofynion y Ddeddf newydd, gan gynnwys gweithdy diweddar ar gyfer aelodau, ac mae yna wedi bod cymorth corfforaethol dangosadwy i'r rhaglen foderneiddio, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yng nghyllidebau gwasanaethau.</p> <p>Cwblhaodd swyddogion y dull hunanasesu er mwyn ystyried pa mor barod oeddent ar gyfer y Ddeddf.</p>

### 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau hynny. Yn ystod 2014-2015, ymwelwyd â'r safleoedd canlynol:

- Y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid
- Canolfan Deuluoedd Penparcau
- Y tîm o amgylch y teulu

- Y gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd
  - Y tîm iechyd meddwl cymunedol
  - Y tîm cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, a gwaith pontio
  - Un pwynt mynediad
  - Gwasanaeth ymyrraeth a dargedir
  - Gofal a chymorth wedi'u cynllunio
- 3.2. Mae'r chwe chartref gofal sydd o dan reolaeth y cyngor hefyd wedi cael eu harolygu gan AGGCC yn 2014-2015. Mae'r seithfed cartref gofal, Awel Deg, yn dal i fod ar gau dros dro. Cyflwynodd AGGCC un hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mewn un gwasanaeth yn 2014-2015, sef Min y Môr. Mae hyn oherwydd nad oes rheolwr cofrestredig o hyd. Cadarnhaodd y cyngor fod camau wedi eu cymryd ar lefel gorfforaethol erbyn hyn i fynd i'r afael â'r mater.
- 3.3. Ym mis Tachwedd 2014, cynhaliodd AGGCC arolygiad blynyddol o ddau wasanaeth rheoledig, maethu ac eistedd gyda phobl. Roedd y ddau ohonynt yn gadarnhaol, ac ni nodwyd unrhyw ofynion rheoleiddiol.
- 3.4. Cymerodd AGGCC gamau dilynol mewn perthynas ag argymhellion yr arolygiad o gynlluniau'r cyngor am ddiogelu a gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal ac sy'n ymddwyn mewn ffordd fregus neu beryglus. Gwelwyd tystiolaeth o arferion da mewn 24 o feysydd. Gofynnwyd i'r cyngor ystyried 17 o feysydd i'w gwella, a chafodd y rhain eu datblygu i fod yn gynllun gweithredu manwl, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2015. Mae'r cyngor wedi ymateb yn dda yn erbyn ei gynllun gweithredu, a gwnaed cynnydd da.
- 3.5. Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hadroddiad ynghylch trefniadau corfforaethol Ceredigion i gefnogi gwaith diogelu plant, a chynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014. Roedd hwn yn archwiliad cadarnhaol o'r trefniadau diogelu yn y sir; dim ond pedwar argymhelliad a wnaed, a gweithredwyd ar bob un ohonynt.
- 3.6. Gwnaeth AGGCC hefyd gwrdd ag uwch-swyddogion y cyngor drwy'r flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, ac i drafod cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd. Roedd y cyngor yn

barod iawn i ymgysylltu ag AGGCC, a gwnaethant gynorthwyo AGGCC i gael mynediad at safleoedd er mwyn cynnal ymweliadau.

#### **4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf**

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y meysydd penodol y gwneir gwaith dilynol arnynt yn cynnwys:
- Y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r model continwwm anghenion.
  - Gwaith parhaus i weithredu newidiadau i'r gwasanaeth, er mwyn paratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
  - Y gwaith cydweithredol a gynhaliwyd mewn perthynas â grŵp cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol canolbarth a gorllewin Cymru.
- 4.2. Yr heriau a fydd yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer y cyngor yn 2015-2016 fydd y gyllideb, gweithredu'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ynghyd â gweithredu'r argymhellion a wnaed yn sgil yr adolygiad o ad-drefnu cartrefi gofal a gwasanaethau dydd ar gyfer anabledau dysgu.

#### **5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016**

- 5.1. Mae AGGCC hefyd yn cynnal arolygiadau thematig o'r gwasanaethau canlynol, ac efallai y bydd Ceredigion yn cael ei dewis ar gyfer y gwaith maes:
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
  - Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledau dysgu
  - Adolygiad cenedlaethol o waith cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal



## 6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

### Oedolion

#### Trosolwg

- 6.1. Mae'r cyngor yn parhau i drawsnewid ei wasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl Ceredigion yn well. Mae gan bobl fynediad da at wasanaethau oedolion a phlant drwy'r ganolfan gyswllt ail-strwythuredig, ac mae'r brocer trydydd sector a'r uwch-ymarferydd yn rhan ohoni. Mae'n sicrhau bod gwybodaeth yn amserol ac yn briodol ar gyfer anghenion pobl. Mae'r cyngor yn adrodd bod tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn gan fod lleihad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n mynd yn syth o'r un pwynt mynediad drwy at y gwasanaeth gofal a chymorth wedi'u cynllunio. Yr adborth gan ddarparwyr ac arolygwyr AGGCC yw bod y trefniadau effeithiol iawn o gael canolfan gyswllt wedi cael hwb o ganlyniad i'r newidiadau, ac maent bellach yn darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr.
- 6.2. Mae'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl hŷn wedi dechrau. Mae'r cyngor bellach yn darparu ymyrraeth gynhwysfawr a dargedir, ac amrywiaeth o wasanaethau gofal personol i bobl sydd angen cyfnod o ailalluogi am hyd at chwe wythnos. Mae'r tîm integredig aml-asiantaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â dau gyn-dîm asesu a rheoli gofal ynghyd, ac mae'n cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau sy'n darparu gofal tymor hwy. Mae'r cyngor wedi cynnal ymgynghoriad hir a manwl ar ddyfodol ei gartrefi gofal preswyl dan ei reolaeth. Ymgysylltwyd ag aelodau, staff, teuluoedd a phreswylwyr. Bydd argymhellion ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen yn hysbys yng nghanol 2015. Mae AGGCC wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cam.
- 6.3. O ganlyniad i ailstrwythuro'r ddarpariaeth gwasanaethau, mae'r cyngor yn adrodd bod yna wedi bod effaith gadarnhaol ar oedi wrth drosglwyddo gofal, ac mae'r dangosyddion perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gwelliant pellach o gymharu â llynedd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen o ran helpu pobl i ddychwelyd adref ar ôl bod yn yr ysbyty, a chan leihau'r risg o niwed sy'n gysylltiedig â chyfnod estynedig yn yr ysbyty, felly. Mae'r ffaith mai Ysbyty Bronglais oedd yr unig ysbyty yng Nghymru a arhosodd ar lefel un yn ystod uchafbwynt y cyfnod o bwysau a gafwyd yn y gaeaf yn dystiolaeth o hyn.
- 6.4. Mae adborth cynnar gan arolygwyr AGGCC ynghylch trefniadau diogelu diwygiedig y cyngor yn gadarnhaol iawn, ac mae gwelliant o ran cyswllt,

cysondeb penderfyniadau, a chyfathrebu. Mae adnoddau o fewn y tîm wedi cynyddu oherwydd penodwyd rheolwr diogelu a dau uwchymarferydd yn ddiweddar. Mae tystiolaeth dda o weithio integredig gyda chydweithwyr ym maes iechyd, gan gynnwys rheolwyr o fewn y timau lleoliad ar lefel strategol a gweithredol. Fodd bynnag, mae gweithredu'r polisi diogelu newydd yn achosi pwysau ar lwythi gwaith a pherthnasau. Mae'n rhaid ystyried eglurder a gwaith ymgynghori â'r bwrdd iechyd, ynghyd â'r angen i gael trafodaeth agored a gonest ynghylch y strwythur diogelu arfaethedig newydd, yn flaenoriaeth.

- 6.5. Mae pob tîm o fewn gwasanaethau oedolion wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014. Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau oedolion i ymateb i'r ceisiadau am awdurdodaeth. Rhwng 2009 a 2014, cafwyd 32 o geisiadau am asesiadau. Cyfanswm nifer y ceisiadau ar gyfer asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ym mhob maes gwasanaeth yn 2014-2015 oedd 212. Hyd yn hyn, nid yw'r cyngor wedi gallu cyflawni'r gwaith hwn, a bydd hyn hefyd yn flaenoriaeth sylweddol ar gyfer hyfforddiant yn y flwyddyn sydd i ddod, ynghyd â'r gwaith cwmpasu a'r gwaith codi ymwybyddiaeth sydd eu hangen. Cydnabyddir y bydd angen i weithwyr cymdeithasol mewn timau eraill sy'n aseswyr budd pennaf gefnogi gwaith y tîm cymunedol, ond mae'n glir y bydd hyn yn cael effaith weithredol ar adnoddau mewn mannau eraill.
- 6.6. Yn yr adolygiad o ofal ar gyfer pobl hŷn, mae perfformiad wedi disgyn o 85% yn 2013-2014 i 76% eleni. Rhagwelwyd hyn gan y cyngor o ganlyniad i ailstrwythuro gwasanaethau pobl hŷn, ond bydd angen mynd i'r afael â'r gostyngiad hwn mewn perfformiad yn y flwyddyn sydd i ddod. O fewn gwasanaethau anabledau dysgu, mae'r cyngor wedi gwella o'r naill flwyddyn i'r llall o ran cynnal adolygiadau, ac mae angen i hyn barhau. Er mwyn cyflawni hyn, cyflogwyd staff ychwanegol i ganolbwyntio ar sicrhau bod pecyn gofal pob defnyddiwr gwasanaethau yn cael ei adolygu yn ôl yr angen. Mae perfformiad mewn adolygiadau o gynlluniau triniaeth gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl wedi cyrraedd cyfradd gwblhau o 90%.
- 6.7. Nid yw pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl, eu teuluoedd na'u gofalwyr, yn cael canlyniadau da o ganlyniad i'r ffaith bod y bwrdd iechyd wedi cau gwelyau iechyd meddwl hanfodol fel rhan o'i ad-drefniad lleol. Mae hyn wedi arwain at drosglwyddo defnyddwyr gwasanaethau i Gaerfyrddin neu Lanelli, ac mae'n peri trallod i bobl sydd heb wasanaethau seibiant yn lleol sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Cydnabyddir yr angen i ddatblygu eiriolaeth iechyd meddwl a gwella cysylltiadau â gwasanaethau plant, gwasanaethau gofalwyr, a thimau iechyd meddwl y glasoed er mwyn mynd i'r afael

â'rbwlch o ran adnoddau.

- 6.8. Nid oes barn strategol gyffredinol mewn gwasanaethau iechyd meddwl oherwydd diffyg cynnydd o ran datblygu'r strategaeth iechyd meddwl gyda phartneriaid ym maes iechyd, a phroblemau capasiti yn y cyngor sy'n golygu bod y pwyslais ar ymyrraeth mewn argyfwng. Mae rheolwr y gwasanaeth yn goruchwyllo anabledau dysgu a diogelu mewn gwasanaethau oedolion, ac nid yw hyn yn gynaliadwy. Canlyniad hyn yw mai dim ond ymyrraeth mewn argyfwng a wneir, ac os oes golwg strategol drosfwaol o gwbl, prin iawn ydyw. Mae datblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer y sir yn dibynnu ar gydweithwyr iechyd hefyd, ac nid yw hyn wedi'i gyflawni eto.
- 6.9. Gellid gwella canlyniadau ar gyfer rhai pobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion pe bai gwaith ymgysylltu â nhw a'u teuluoedd yn dechrau'n gynharach, yn 14 oed yn hytrach na 18 oed, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae effaith negyddol ar ddilyniant gofal ac ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, er gwaethaf y ffaith bod gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cydweddu â'u hanghenion er mwyn eu diwallu. Mae diffygion o hyd, oherwydd nid yw gwaith cynllunio ar gyfer y cynnod pontio yn dechrau'n ddigon cynnar. Mae'r adran yn cynnal ymarfer mapio, ac mae hyn yn gwneud rhywfaint i'w wneud yn bosibl nodi'r diffyg. Fodd bynnag, mae cydweithio rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant i helpu pobl ifanc i bontio wedi gwella o ganlyniad i gynllun peilot a gynhaliwyd yn 2013, er nad oedd yr adnodd staffio wedi'i gynnal. Mae proses a chynllun trosglwyddo ar waith, ac mae tystiolaeth dda o gydweithio rhwng y tîm plant anabl a'r tîm cymunedol ar gyfer pobl ag anabledau dysgu.
- 6.10. Mae yna wedi bod llwyddiannau o ran nodi rhagor o ofalwyr. Priodolir hyn i gynyddu ymwybyddiaeth drwy'r cynllun ymwybodol o ofalwyr, a'r fenter buddsoddwyr mewn gofalwyr, sydd wedi helpu meddygfeydd i'w nodi. Mae nifer y gofalwyr sy'n hysbys i'r cyngor wedi cynyddu gan 118 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 942 erbyn diwedd 2014-2015. Roedd gweithredu strategaeth gofalwyr y cyngor yn dal i gael ei bwysleisio, yn enwedig o ran yr angen i gynyddu nifer y gwasanaethau anabledau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl a oedd yn ei weithredu. Er bod y ffigurau ar gyfer y gwasanaethau hyn wedi gwella o gymharu â 2013-2014, roeddent yn dal i fod yn isel, ac mae angen rhagor o gynydd. Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer y dangosydd perfformiad cenedlaethol ynglŷn â chynnig asesiad o anghenion i ofalwyr, ac mae bron i 96% o'r gofalwyr sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol wedi cael cynnig asesiad anghenion gofalwr. Bydd y maes gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## **Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.11. Er mwyn cefnogi'r agenda ailalluogi, mae'r cyngor wedi datblygu marchnad darparwyr gofal cartref annibynnol, ac mae wedi cydweithio'n llwyddiannus â nhw a defnyddwyr gwasanaethau wrth i'w gofal gael ei drosglwyddo'n raddol o fod yn rhan o ddarpariaeth y cyngor i fod yn y sector annibynnol. Gwelwyd tystiolaeth o gydweithio da, ac o ganlyniad i hyn, llwyddwyd i gael trosglwyddiad llyfn a di-dor. Mae cysylltiadau effeithiol â'r tîm gofal a chymorth wedi'u cynllunio yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael yr ymateb mwyaf priodol.
- 6.12. Mae nifer y taliadau uniongyrchol yn parhau i gynyddu'n gyson, ac mae yna wedi bod cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae anawsterau o ran recriwtio cynorthwywyr personol yn dal i fod yn rhwystr ac yn her o ran niferoedd sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol, ac mae'r cyngor yn cydweithio'n agos â'r darparwr cymorth presennol i ystyried ffyrdd newydd, arloesol o ehangu'r gronfa o gynorthwywyr personol posibl.
- 6.13. Mae'r cyngor, ynghyd â'r bwrdd iechyd, wedi cyflwyno achos busnes amlinellol ar gyfer y fenter arloesol £8 miliwn yn Nhregaron, Prosiect Cylch Caron. Cafwyd cymeradwyaeth weinidogol yn ddiweddar i fynd ymlaen i ddatblygu achos busnes llawn, ac os yw'n llwyddiannus, bydd hon yn dod yn fenter enghreifftiol ar gyfer prosiectau tebyg eraill yng Ngheredigion.

### **Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

- 6.14. Mae mentrau ar waith sy'n dangos integreiddiad rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd mae risgiau sylweddol i ddatblygu gwasanaethau cyson a chost-effeithiol ymhellach. Mae diwallu anghenion iechyd a lles pobl, ynghyd â gwasanaethau gwell sydd wedi'u targedu, yn ganolog i waith y cyngor o foderneiddio gwasanaethau pobl hŷn a gwasanaethau anabledau dysgu. Mae datblygu'r gwasanaeth ymyrraeth a dargedir a'r timau gofal a chymorth arfaethedig, mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd, yn enghraifft o hyn, ac mae hyn yn wir am brosiect Cylch Caron hefyd. Mae cyfarwyddwr y sir ar gyfer iechyd wedi trefnu cyfarfodydd, sy'n cynnwys cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, gyda meddygon teulu, a bydd hyn yn hwyluso datblygu arferion gwaith integredig rhwng meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach. Fodd bynnag, bydd y timau newydd yn cael eu had-drefnu ymhellach er mwyn lleihau'r risgiau yn sgil penderfyniad y bwrdd iechyd i dynnu yn ôl o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth presennol a'r cyllid sy'n gysylltiedig ag ef. O'r herwydd,

bydd cyrraedd y targed arbedion disgwylidig yn 2015-2016, ynghyd â darparu gwasanaethau gofal integredig i bobl sy'n agored i niwed, yn her.

### **Meysydd o gynnydd**

- Ailstrwythuro'r un pwynt mynediad
- Ailstrwythuro diogelu oedolion
- Moderneiddio gwasanaethau pobl hŷn a gwasanaethau anableddau corfforol
- Datblygu'r farchnad, a phroses lefn o drosglwyddo'r gwasanaeth gofal cartref mewnol i'r sector annibynnol

### **Meysydd i'w gwella**

- Ymgynghori â'r bwrdd iechyd ynglŷn ag ymgysylltu'n well â'r broses ddiogelu
- Codi ymwybyddiaeth yn y sector, a chwmpasu gwaith o gwmpas y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Datblygu a gwneud cynnydd ar wasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl
- Capasiti rheoli gweithredol effeithiol, a throsolwg strategol o'r gwasanaeth iechyd meddwl
- Datblygu a gwneud cynnydd ar strategaeth iechyd meddwl gyda'r bwrdd iechyd
- Cynnydd ar waith partneriaeth ym maes iechyd meddwl, gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), a'r gwasanaeth gofalwyr
- Ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc pan maent yn 14 oed mewn gwasanaethau pontio

## **Plant a phobl ifanc**

### **Trosolwg**

- 6.15. Mae plant yn elwa ar gael cynlluniau strategol a gweithredol cryf a chlr sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ataliol i gynorthwyo teuluoedd yn eu cymunedau.
- 6.16. Mae'r cyngor wedi datblygu menter newydd ac wedi ymgynghori arni, a bydd hon yn galluogi gwasanaethau plant i asesu a chynllunio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn ffordd fwy cyffredinol a chyson. Datblygwyd cynllun gweithredu aml-asiantaeth uchelgeisiol gyda phartneriaid, a'r elfen bwysicaf o'i wireddu fydd y gallu i weithio ar y cyflymder sydd ei angen. Bydd AGGCC yn monitro cynnydd y cynllun hwn yn ystod 2015-2016.
- 6.17. Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu gan 14% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Golyga hyn fod baich gwaith uwch o ran sgrinio cychwynnol ac asesu plant a theuluoedd. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi sicrhau bod 98% o'r achosion a atgyfeirir drwy sgrinio yn ddiogel o fewn 24 awr.
- 6.18. Drwy ei raglen ymyrraeth gynnar, mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaeth seibiant newydd, 'Gofal Cymorth', sy'n rhoi seibiant i deuluoedd sy'n cael anawsterau. Mae hyn wedi galluogi'r cyngor i gadw'r nifer sy'n derbyn gofal ar 78 o blant. Mae hyn yn gyfwerth â 63 o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth, ymhell o dan y ffigur cyfartalog yng Nghymru, sef 91 fesul 10,000. Roedd y rhai a oedd yn gadael gofal yn gallu aros mewn lleoliadau gyda'u gofalwyr maeth presennol o ganlyniad i'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod', a ategir gan y gwasanaeth gadael gofal.
- 6.20. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn dal i fod yn isel. Cynhelir cynadleddau'n amserol yn y rhan fywaf o achosion, ac mae presenoldeb da gan asiantaethau eraill. Gwnaeth dau berson ifanc herio eu cofrestriad yn ystod y flwyddyn, a chafodd y rhain eu hystyried mewn panel apêl, a chafodd un ohonynt ei gynnal. Mae AGGCC yn cydnabod bod hon yn enghraifft gadarnhaol o glywed llais y plentyn.
- 6.21. Bydd y cyngor yn cyflwyno pecyn ymgynghori a chyfranogi electronig arloesol fel rhan o'i strategaeth cyfranogi ar gyfer pobl ifanc, a elwir '*Viewpoint*'. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n fwy llawn yn eu hadolygiadau ac mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae nifer y plant sy'n destun gweithrediadau wedi lleihau'n sylweddol, ac mae'r cyngor yn priodoli'r lleihad hwn i'w waith ataliol, yn ogystal â'r protocol cyn-gweithrediadau a'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, dau broses a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

- 6.22. Cafwyd cynnydd da o ran trefniadau rhanbarthol, a dechreuodd gwasanaeth maethu canolbarth a gorllewin Cymru ym mis Ebrill 2014, cyn i'r gwasanaeth maethu cenedlaethol gael ei lansio ym mis Tachwedd 2014. Mae sawl plentyn wedi elwa, a chafodd saith ohonynt eu paru a'u gosod i gael eu mabwysiadu erbyn diwedd y flwyddyn. Daeth CYSUR, y bwrdd diogelu plant rhanbarthol, yn weithredol ym mis Mehefin 2014, wedi'i gefnogi gan grŵp gweithrediadau lleol cryfach i ystyried y trefniadau yng Ngheredigion ac i ystyried cyflwyno bwrdd diogelu iau ar gyfer Ceredigion, wedi'i gefnogi gan sefydliad Tros Gynnal Plant.
- 6.23. Yn 2014-2015, wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer diogelu corfforaethol yn y cyngor, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi:
- 6.24. 'Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi nodi pa wybodaeth sy'n rhaid iddo ei monitro, ac yna gwerthuso a yw ei drefniadau ar gyfer diogelu plant yn gweithio'n effeithiol. Mae'r cyngor yn defnyddio nifer o ddangosyddion perfformiad i fesur perfformiad ar draws y cyngor. Mae gan bob dangosydd darged sylfaenol, ac mae'n cael ei adrodd a'i drafod yn fewnol o fewn yr adran berthnasol, ac yn ffurfiol drwy'r adroddiadau chwarterol safonol i'r dirprwy arweinydd a phennaeth perfformiad a gwella'r cyngor.'

## **Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.15. Mae gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar y cyngor yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol iawn i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid yn cefnogi'r gwaith hwn drwy gael dull rheoli risg clir ar waith, sydd wedi'i ategu gan y gwasanaeth biwro newydd. Mae'r tîm aml-asiantaeth hwn yn cydweithio'n agos â'r heddlu, a rhennir gwybodaeth ar draws yr holl wasanaethau statudol er mwyn cyflawni'r canlyniad gorau ar gyfer y plentyn. Mae cysylltiadau dwyochrog ar waith â Phrifysgol Aberystwyth, sy'n gallu gosod myfyrwyr yn y tîm wrth iddynt wneud gwaith ymchwil ym maes ymyrraeth ac atal cynnar. Er mwyn i'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar hwn lwyddo, mae'r broses sgrinio gynnar a gwaith aml-asiantaeth yn hanfodol. Mae'r broses rheoli risg yn galluogi'r gwasanaeth i dargedu'r lefel atal isaf, ac mae'n gweithio'n dda gyda'r brifysgol, y tîm o amgylch y teulu, a'r sector addysg.
- 6.16. Mae canlyniadau cadarnhaol i blant sy'n ymddangos yn risg isel ar gontinwrm anghenion y cyngor, sy'n gweithio'n dda ac yn darparu strwythur i'r gwaith o asesu a darparu gwasanaethau. Mae'r dull

continwmm yn gwneud cynnydd yng ngogledd y sir, lle mae amrywiaeth dda o weithgareddau ymgysylltu, gwaith grŵp a chlybiau sydd wedi cael eu sefydlu fel dulliau ymyrraeth ac atal cynnar. Yn awr, bydd yn rhaid i'r datblygiad hwn gael ei gyflwyno i ganolbarth a de'r sir. Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd gyda'i waith atal camfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc, ac mae'n ymgysylltu'n dda â gwasanaethau addysg a chyrrff statudol eraill yn hyn o beth. Mae llwybr atgyfeirio clir.

- 6.17. Mae'r gwasanaeth, sydd â gweithlu sefydlog, wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer y gorchmynion statudol o 70 y llynedd i 24 eleni. Ystyrir bod ymgysylltu'n dda â phobl ifanc drwy ddefnyddio cyfweiliadau cymhelliant a gwaith ymddygiad gwybyddol yn hanfodol. Mae pob person ifanc sydd angen cymorth oedolyn priodol yn gallu elwa ar gynllun gwirfoddol arloesol a reolir gan gydgyfylltydd gwirfoddol sesiynol.
- 6.18. Mae plant a theuluoedd yn elwa ar gyngor a chymorth gan ganolfannau teuluoedd yn y sir sy'n darparu gwasanaeth hynod werthfawr a phoblogaidd. Mae staff yn cydweithio'n agos â'r tîm o amgylch y teulu i gyflawni canlyniadau da, ond mae angen ystyried rôl yr adnodd hanfodol hwn yn y dyfodol. Dylid cynnal gwaith gwerthuso ffurfiol i ystyried y ddarpariaeth bresennol a datblygiadau yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â'r bobl ifanc, teuluoedd, staff, ac asiantaethau partner sy'n defnyddio'r gwasanaeth presennol.
- 6.19. Mae plant a phobl ifanc yn parhau i gael cefnogaeth dda gan y tîm o amgylch y teulu, sy'n gallu ymateb mewn ffordd hyblyg i amrywiaeth o anghenion drwy ddefnyddio dulliau arloesol a chreadigol, ac mae gwasanaethau holistaidd cydgysylltiedig ar gyfer plant a theuluoedd. Mae wedi creu cysylltiadau da gyda meysydd addysg, tai ac iechyd. Mae'r gwasanaeth syml a chydgyfylltiedig yn gweithio gyda chryfderau teuluoedd ac yn nodi amcanion y dylid gweithio atynt. Mae'r staff yn ymroddedig iawn i'r model, ac maent yn derbyn cefnogaeth dda gan y rheolwyr. Mae'r berthynas â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yn faes i'w ddatblygu, oherwydd ceir anawsterau o ran atgyfeirio teuluoedd.
- 6.20. Mae teuluoedd yn elwa ar y gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd, sy'n darparu lefel dda o gymorth ac ymyrraeth yn gyson. Mae dull y gwasanaeth yn seiliedig ar gryfderau, sy'n debyg i fodel 'Arwyddion Diogelwch', ac mae'r dull hwn yn llwyddiannus; mae adroddiadau cynadleddau achos yn dechrau adlewyrchu'r dull hwn o bennu amcanion â theuluoedd. Drwy gytundeb ar lefel y gwasanaeth â chanolfan plant trydydd sector a leolir yn Aberteifi, mae'r cyngor wedi rhoi cymorth creadigol a hanfodol i ddau deulu. Mae'r model hwn yn un y gellid gwneud cynnydd arno a'i ddatblygu yn rhannau gwledig y sir. Mae'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd hefyd wedi meithrin cysylltiadau da â sefydliadau trydydd sector eraill sy'n chwarae rhan




bwysig o ran hybu hyder ac ymwybyddiaeth o'r gymuned. Mae Ceredigion yn rhoi cymorth o ran gwaith gweinyddu busnes a datblygu staff i'r tair sir arall yn y grŵp cydweithredol.

- 6.21. Dylid ychwanegu at lwyddiannau'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd, gan nodi'r rhannau o'r gwasanaeth hwn a allai cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau yn ehangach. Er enghraifft, dylid ymgorffori cyfraniadau gan wasanaethau oedolion, a dylid datblygu cysylltiadau gwell â gwasanaethau tai ac addasiadau, technoleg gynorthwyol, ac asesiadau ariannol.

### **Plant sy'n derbyn gofal**

- 6.22. Mae'r cyngor wedi cyflwyno cynllun maethu arbenigol, sy'n golygu bod modd cadw gofalwyr maeth o grŵp bach o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Mae hyn, ynghyd â mentrau megis rhianta tîm, wedi galluogi'r cyngor i leihau nifer y plant sydd wedi symud lleoliad dair gwaith neu'n fwy i 9%, sef saith o blant. Mae hwn yn lleihad sylweddol o gymharu â dwy flynedd yn ôl pan oedd gan y cyngor 19 o blant yn y categori hwn, ac mae hyn bellach yn cymharu'n gadarnhaol â gweddill Cymru. Mae nifer y rhai sydd angen gofal preswyl wedi lleihau i ddau, ac mae'r defnydd o ddarparwyr gofal maeth sy'n asiantaethau annibynnol wedi lleihau i ddeg. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, y lefel remandio yn y ddalfa ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddau yw sero.
- 6.23. Mae'r holl blant sy'n derbyn gofal yn cael ymweliadau rheolaidd, ond nid yw perfformiad y cyngor fel y disgwylir o ran ymweld â nhw o fewn yr amserlen statudol. Er bod gwelliant o 2% dros y flwyddyn ddiwethaf, erys y ffigur o dan y cyfartaledd yng Nghymru, ac mae angen blaenoriaethu hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.
- 6.24. Mae'r cyngor yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl ifanc drwy'r sefydliad Tros Gynnal Plant, sydd hefyd yn cynnal gwasanaeth ymwelwyr annibynnol ar gyfer y rhai sydd heb gyswllt â'u teuluoedd eu hunain. Eleni, gwnaeth y cyngor hefyd lunio protocol gwaith gyda Thai Cantref er mwyn sicrhau bod pobl ifanc a leolir yn eu tai yn cael cynnig eiriolaeth, a chyflwynwyd 'cynnig gweithredol' eiriolaeth ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal.
- 6.25. Mae cynlluniau plant sy'n derbyn gofal wedi eu hadolygu o fewn yr amserlen statudol mewn 97% o'r achosion (197/203), ac mae hyn yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd yng Nghymru.



6.26. Ar hyn o bryd, mae gan y cyngor 78 o blant sy'n derbyn gofal. Roedd y nifer wedi cynyddu yn 2010-2011, ond mae wedi aros yn weddol gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar gyfer teuluoedd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, mae argaeledd cynyddol ymyrraeth gynnar megis 'Teuluoedd yn Gyntaf', cyfraniad y tîm o amgylch y teulu, a chymorth wedi'i dargedu gan y gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd wedi sicrhau bod y niferoedd wedi aros yn gymharol isel. Dim ond tri o blant sy'n destun gweithrediadau llys ar hyn o bryd, yr un peth ag y llynedd.

### **Meysydd o gynnydd**

- Datblygu a dechrau gweithredu'r model continwwm anghenion
- Cyflwyno *Viewpoint*
- Gwaith partneriaeth mewn gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar
- Lleihad yn nifer y gorchmynion statudol
- Datblygiad parhaus y gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd a'r tîm o amgylch y teulu

### **Meysydd i'w gwella**

- Gwella perfformiad o ran cynnal ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal

- Datblygu dulliau effeithiol ar gyfer gwerthuso a mesur y ddarpariaeth gwasanaethau yn erbyn y disgwyliadau a'r safonau a amlinellir yn y 'continwmm anghenion'
- Datblygu system o archwiliadau achos yn y gwaith atal cynyddol
- Gwerthuso cynnydd y ganolfan deuluoedd mewn ymgynghoriad â phartneriaid a rhanddeiliaid
- Ychwanegu at lwyddiannau'r gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd er mwyn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau yn ehangach

## **7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth**

- 7.1. Mae pobl sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn derbyn ymateb mwy cyson o ganlyniad i newidiadau i strwythur rheoli corfforaethol y cyngor. Mae hyn wedi'i ymgorffori bellach, ac mae'r effaith gadarnhaol o weithio mewn cyfarwyddiaeth ehangach yn galluogi gofal cymdeithasol i gysylltu'n fwy effeithiol â thai ac adrannau eraill. Cefnogir hyn drwy gyfarfodydd penaethiaid gwasanaethau, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth fwy eang o fewn y cyngor o'i gyfrifoldeb corfforaethol i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Ategir hyn gan adroddiad gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-2014, a oedd yn cynnwys canlyniad yr asesiad corfforaethol, sy'n nodi:
- 7.2. 'Mae'r cyngor yn elwa ar arweinyddiaeth gref a chlr, ac yn sgil ei waith ailstrwythuro mewnol, mae'r cyngor yn dangos diwylliant perfformiad corfforaethol sydd â photensial i yrru'r gwelliannau sydd eu hangen i wasanaethau a chanlyniadau ar gyfer ei ddinasyddion.'
- 7.3. Y cyfarwyddwr strategol ar gyfer 'Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw' yw cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol. Mae yntau'n aelod llawn o'r uwch-dîm rheoli corfforaethol, ac mae ganddo fynediad uniongyrchol at y prif weithredwr ac uwch-aelodau etholedig y cyngor. Nid oes cynlluniau i newid y trefniadau hyn pan fydd y cyfarwyddwr presennol yn gadael ar ddiwedd 2015.
- 7.4. Mae ymddeoliad pennaeth gwasanaethau plant, a'r recriwtio llwyddiannus i'r swydd ar ôl hynny, ynghyd â'r ffaith y bydd pennaeth Comisiynu Strategol (Gofal), Sicrwydd a Gwasanaethau Tai yn gadael cyn bo hir (cynlluniwyd hyn ar gyfer haf 2015), wedi golygu y bu'n rhaid ailddyrrannu nifer o swyddogaethau adrannol a newid cyfrifoldebau.

Bydd angen monitro effaith hyn ar ddarparu gwasanaethau a gallu i reoli yn ofalus.

- 7.5. Her allweddol i'r cyngor yw'r berthynas weithio â'r sector iechyd, a'i waith ailstrwythuro a newid pwyslais mewnol. Mae'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu'r cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol ac yn fforddiadwy yn sylweddol.
- 7.6. Mae'r cyngor wedi dangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn ei feysydd blaenoriaeth ei hun yn ystod 2014-2015. Mae ei adolygiad o wasanaethau seibiant anabledau dysgu, gwelliannau o ran gofal cartref ac o ran perfformiad taliadau uniongyrchol, cynnydd ar y gwaith cydweithredol rhanbarthol, a'r datblygiad tuag at brosiect Cylch Caron yn enghreifftiau. O ran contractio a chomisiynu, mae cael cymorth gan y farchnad i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, i wella systemau, ac i helpu'r timau gwasanaeth i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer gofal hirdymor wedi bod yn her. Fodd bynnag, gwnaeth y gwaith llwyddiannus o ailstrwythuro gwasanaethau, ac o drosglwyddo gofal cartref mewnol i ddarparwyr yn y sector preifat gyda chyn lleied o amhariadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd â phosibl, helpu'r rhaglen foderneiddio yng ngwasanaethau oedolion yn fawr.
- 7.7. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro contractau wedi cael eu cryfhau, ac mae arolygwyr AGGCC wedi adrodd bod cyfathrebu a chydweithio da wedi arwain at ymatebion amserol ac effeithiol i berfformiad gwael mewn gwasanaethau darparwyr. Mae presenoldeb da mewn fforymau darparwyr yn dystiolaeth o ymgysylltu'n dda â'r sector darparwyr. Gwnaeth cynnydd ar lefel ranbarthol o ran datblygu datganiad sefyllfa'r farchnad ar gyfer pobl hŷn, a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2015.
- 7.8. Mae gan y cyngor brosesau effeithiol sydd wedi eu rheoli'n dda ar gyfer pennu'r gyllideb a chynllunio ariannol, er mwyn cyflawni'r cynllun ariannol tymor canolig. Mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio, pennu a monitro'r gyllideb, a chraffu ar gyflawni. Mae pwyllgor trosolwg a chraffu'r cyngor wedi darparu goruchwyliaeth bellach ar berfformiad a gweithrediadau adrannau. Caiff adroddiadau perfformiad ac adroddiadau diweddar rheolaidd eu cyflwyno i'r pwyllgor, ac mae ei aelodau'n cyflawni swyddogaeth ddadansoddi a sicrwydd cyhoeddus gadarn.
- 7.9. Yn 2014-2015, dyrannwyd mwy o gyllid i wasanaethau oedolion, plant a chomisiynu. Dyrannodd y cyngor £6.7 miliwn i wasanaethau plant, £21.2 miliwn i wasanaethau oedolion, a £2.9 miliwn i gomisiynu strategol. Roedd hyn yn ymdrin â'r costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen werthuso swyddi. Erbyn y chwarter olaf, gwnaeth y gorwariant

rhagamcanol mewn gofal cymdeithasol oedolion gynyddu i £1.2 miliwn, gyda thanwariant o £560,000 mewn gwasanaethau teuluoedd a phlant, a £43,000 mewn comisiynu strategol.

- 7.10. Mae tystiolaeth o ganlyniadau ardderchog ar gyfer pobl hŷn sy'n preswyllo yn y datblygiad gofal ychwanegol llwyddiannus yn Aberteifi, wedi'i ddarparu drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Mae'r cyngor yn parhau i dyfu a datblygu'r farchnad leol, sy'n dystiolaeth o'i ymrwymiad i'r dyfodol yng ngoleuni newidiadau demograffig. Mae bellach yn contractio gydag 12 o asiantaethau gofal cartref. Mae yna wedi bod cynnydd mewn darparwyr ar ôl digwyddiad marchnad llwyddiannus. Mae'r cyngor yn parhau i gydnabod bod angen cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl yn y gogledd, a'r gofyniad i gynyddu nifer y gwasanaethau gofal ychwanegol.
- 7.11. Llwyddodd y prosiect COASTAL i gynorthwyo dros 446 o bobl mewn cyflogaeth, gan ragori ar y targedau ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a chanlyniadau cadarnhaol. Cafodd dros 67 o bobl ag amrywiaeth o anableddau gymorth i gael swydd, ac enillwyd 215 o gymwysterau. Daeth y cyllid i ben ym mis Rhagfyr 2014, ond gwnaeth y cyngor glustnodi cyllideb fach er mwyn cadw rheolwr a thri staff cymorth am chwe mis ar ôl hynny.
- 7.12 Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu 'Mwy Na Geiriau', sef strategaeth Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sydd angen neu sy'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg. Roedd 48% o'r staff a oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2015 yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd 35% ohonynt yn weithwyr cymdeithasol ac yn uwch-ymarferwyr. Mae gofyn i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r Gymraeg i'r lefel a amlinellir ar gyfer pob swydd.
- 7.13. Yn gyffredinol, mae'r cyngor yn gallu recriwtio staff newydd i swyddi gwag, ond mae lefelau recriwtio mewn rhai meysydd, megis swyddi gwaith cymdeithasol, yn dal i fod yn her. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn arwain at orfod defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth ym maes gwaith cymdeithasol yn effeithiol, oherwydd defnyddir cynlluniau secondiad, sy'n rhoi cyfleoedd ymarfer dysgu, ac mae ganddo drefniadau partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu ychydig. Mae ceisio sicrhau bod lefelau salwch yn lleihau yn dal i fod yn her.
- 7.14. Mae'r cyngor mewn sefyllfa dda i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae eisoes wedi dechrau trawsnewid gwasanaethau pobl hŷn, y broses integreiddio â'r sector iechyd, ailstrwythuro gwasanaethau diogelu, ac ynghyd â llwyddiannau ei

wasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar, mae'r rhain wedi eu hymgorffori i gynlluniau gweithredu mewnol a ffrydiau gwaith.

### **Meysydd o gynnydd**

- Yn barod i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Recriwtio i swyddi allweddol
- Ymgysylltu â'r farchnad gofal cymdeithasol
- Ansawdd gwell o fewn gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol

### **Meysydd i'w gwella**

- Monitro effeithiau'r newidiadau i'r uwch-reolwyr, ac effaith ail-alinio'r portffolio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau a'u rheoli